

Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi

Adroddiad i Ysgrifennydd y
Cabinet dros Addysg

Chwefror 2017

Cynnwys

Rhagair	2
Diolchiadau	3
Cyflwyniad	4
Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi	5
Methodoleg	6
Argymhellion	8
Beth yw darpariaeth 'cyflenwi'?	10
Y tirlun presennol ar gyfer darpariaeth cyflenwi yng Nghymru	11
Casglu data	12
Arolwg athrawon cyflenwi	14
Cost darpariaeth cyflenwi	15
Cyfraddau cyflog athrawon cyflenwi	16
Diogelu	17
Safonau ansawdd gofynnol achrededig ar gyfer asiantaethau cyflenwi	19
Athrawon Newydd Gymhwyso	20
Dysgu a datblygu proffesiynol	21
Model cydweithredol rhanbarthol ar gyfer cyflenwi	22
Atodiad A: Rhestr o rai a gyfrannodd i'r alwad am dystiolaeth	23
Atodiad B: Modelau darparu amgen a ystyriwyd	25
Atodiad C: Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi – cylch gorchwyl	30

Rhagair

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae amryw o adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi yn archwilio'r materion yn gysylltiedig â'r defnydd o athrawon cyflenwi, y rheolaeth arnynt, ac effaith hynny ar ddeilliannau dysgwyr. Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sefydlwyd Tasglu ar gyfer Modelau Cyflenwi i ystyried opsiynau ar gyfer darparu athrawon cyflenwi yn y dyfodol yng Nghymru.

Dros y chwe mis diwethaf, clywodd y Tasglu dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol a bu'n ystyried y dystiolaeth a'r ohebiaeth ysgrifenedig ar faterion sy'n effeithio ar bob agwedd ar recriwtio, defnyddio a rheoli'r gweithlu cyflenwi. Ein cylch gorchwyl oedd canolbwyntio ar rôl athrawon cyflenwi. Fodd bynnag, wrth i'r gwaith fynd rhagddo, gwelwyd y gallai llawer o'r problemau a'r cymhlethdodau a nodwyd fod yr un mor berthnasol i gynorthwywyr addysgu sydd yn dewis ffordd hyblyg o weithio yn ein hysgolion.

Nid oedd modd i'r Tasglu nodi un model darparu sy'n bodoli eisoes a allai fodloni anghenion system addysg sydd yn newid yn gyflym yng Nghymru. Wrth lunio ein casgliadau, fodd bynnag, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd gyfannol a phragmataidd, a chredwn fod agweddau allweddol y gellid ymdrin â hwy ar unwaith ac a fyddai'n fuddiol i athrawon cyflenwi a dysgwyr fel ei gilydd. Er enghraifft, cefnogaeth datblygu proffesiynol a chanddi fwy o ffocws, cyflwyno safonau ansawdd gofynnol achrededig ar gyfer y rhai sy'n darparu gwasanaeth athrawon cyflenwi, a chael data clir, manwl a mwy tryloyw ynghylch demograffeg athrawon cyflenwi.

Yn dilyn datblygiadau diweddar, mae'n debygol y bydd cyflog ac amodau athrawon yn cael eu datganoli i Gymru. Yn y dyfodol, gallai hyn gynnig cyfle i Lywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar gydraddoldeb cyflogau athrawon cyflenwi.

Mater i chi a Llywodraeth Cymru fydd penderfynu pa argymhellion yr ydych yn dymuno bwrw ymlaen â hwy. Credwn y dylid bod modd bwrw ymlaen â'r holl argymhellion o fewn cyfnod o 18 mis.

Er mwyn inni wella deilliannau dysgwyr yng Nghymru, mae'n hollbwysig cydnabod y gweithlu athrawon cyflenwi fel aelodau allweddol o'r system addysg, a bod angen gwybodaeth a chefnogaeth ddigonol arnynt, a'r un cyfleoedd â'u cydweithwyr sydd mewn swyddi amser llawn.

Yn gywir

Sandra Jones

Cadeirydd - Tasglu ar gyfer Modelau Cyflenwi

Rhagfyr 2016

Diolchiadau

1. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran drwy ddarparu tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r Tasglu. Bu'r wybodaeth a dderbyniwyd yn hynod o ddefnyddiol er mwyn asesu'r cyd-destun cyfredol ar gyfer gwaith athrawon cyflenwi, a'r problemau sydd yn amharu ar y gallu i gyflwyno modelau cyflenwi amgen yn y dyfodol. Ceir rhestr lawn o'r cyfranwyr yn Atodiad A.

Cyflwyniad

2. Cydnabyddir bod athrawon cyfenwi yn rhan annatod o fywyd bob dydd mewn ysgolion; mae hi felly'n hollbwysig bod athrawon sy'n dewis y dull hwn o weithio yn athrawon o'r safon uchaf, a'u bod yn cael mynediad cyfartal at amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol, er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu.

3. Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd nifer o adroddiadau (adroddiadau gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol) yn ceisio ymdrin â'r problemau'n gysylltiedig â dysgu fel athro cyflenwi yng Nghymru.

4. Ym mis Rhagfyr 2014, cytunodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gynnal ymholiad i athrawon cyflenwi. Nod y Pwyllgor oedd adeiladu ar y gwaith a oedd wedi'i gyflawni eisoes, ystyried adolygiadau diweddar, a chanolbwyntio ar feysydd penodol lle'r oedd pryderon yn cael eu codi o hyd. Yn arbennig, roeddent yn awyddus i wybod a oedd y defnydd o athrawon cyflenwi wedi amharu ar ddisgyblion, ac os felly, beth fu'r effaith honno.

Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi

5. Yn gynharach eleni, mewn ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015)¹, ffurfiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Huw Lewis AC, Dasglu ar gyfer Modelau Cyflenwi² i ystyried opsiynau ar gyfer darparu athrawon cyflenwi yn y dyfodol yng Nghymru. Yn *Modelau Darparu Amgen i Ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gweithredu* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016³ nodir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu modelau darparu amgen ar gyfer athrawon cyflenwi.

6. Gwaith y Tasglu oedd adolygu modelau darparu cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer y gweithlu cyflenwi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gyda golwg ar argymhell opsiynau amgen. Gofynnwyd iddo gynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r manteision a'r anfanteision yn gysylltiedig â phob opsiwn, a gofynnwyd yn arbennig iddo ystyried y materion canlynol:

- Cydnabod a chefnogi adnodd addysgu hyblyg.
- Sicrhau system deg, gyson a thryloyw ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi ledled Cymru.
- Darparu ymagwedd strwythuredig a ffurfiol er mwyn i athrawon cyflenwi gyrchu prosesau datblygiad proffesiynol a rheoli perfformiad, gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu a chwyno.
- Sicrhau bod gan ysgolion fynediad at athrawon o ansawdd sy'n sicrhau dilyniant dysgu o ansawdd uchel.
- Cefnogi ANGau cyflenwi byrdymor i'w galluogi i ddangos yn llawn eu bod wedi cyflawni safonau athro proffesiynol.
- Darparu gwybodaeth reoli fanwl gywir am gostau, lefelau absenoldeb a phatrymau mewn cyflogaeth dros dro
- Cynnig gwerth am arian.
- Lleihau'r baich gweinyddol a biwrocraidaidd ar benaethiaid.
- Ystyried egwyddorion sylfaenol *Modelau Darparu Amgen ar gyfer Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gweithredu*.
- Cyflawni'r gofynion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol⁴.

7. Gofynnwyd i'r Tasglu adrodd ei ganfyddiadau i Ysgrifennydd Addysg y Cabinet erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016.

8. Ym mis Medi 2016, amlinellodd y Prif Weinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu 'model newydd ar gyfer cyflogi a datblygu athrawon cyflenwi yng Nghymru, fel y nodir yn y Rhaglen Llywodraethu - *Symud Cymru Ymlaen 2016 - 2021*⁵.

¹ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10483/cr-ld10483-w.pdf>

² <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/160719-supply-model-taskforce-terms-cy.pdf>

³ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2016/alternativedeliverymodel/?skip=1&lang=cy>

⁴ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

⁵ <http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy>

Methodoleg

9. Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016, derbyniodd y Tasglu dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan ystod o randdeiliaid allweddol a phartïon â buddiant. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r holl sefydliadau ac unigolion a gyfrannodd at yr alwad am dystiolaeth ynghlwm yn Atodiad A.

10. Wrth baratoi am y sesiynau tystiolaeth gofynnwyd i'r holl randdeiliaid nodi modelau darparu angen a allai fod yn llwyddiannus yng Nghymru yn eu tyb hwy. Gofynnwyd iddynt hefyd fyfyrion ar y manteision, yr anfanteision a'r costau tebygol yn gysylltiedig â gweithredu.

11. Yn ogystal â hyn, casglodd ysgrifenyddiaeth y Tasglu y dystiolaeth ategol a ganlyn:-

- gwybodaeth yn gysylltiedig â model cyflogau canoledig a fabwysiadwyd gan Adran Addysg Gogledd Iwerddon (AAGI);
- y model cyflenwi sy'n seiliedig ar gontract yn bennaf ac a ddefnyddir ar hyn o bryd yn yr Alban;
- model Cwmni Buddiannau Cymunedol Cydweithredol sydd ar waith ar hyn o bryd yn Ne Orllewin Lloegr;
- y trefniadau ar gyfer cyflenwi sydd ar waith ym modelau Awstralia a Seland Newydd, sef modelau economi gymysg yn bennaf, a arweinir gan y farchnad. a'r
- trefniadau sy'n berthnasol ar hyn o bryd yn Lloegr.

12. Bu'r Tasglu hefyd yn adolygu adroddiadau cyhoeddiedig ac argymhellion ar y pwnc hwn, a gofynnodd am gyngor ynghylch y mathau o ddata sydd ar gael er mwyn archwilio demograffeg athrawon cyflenwi ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys yr wybodaeth sydd ar gael i nodi a deall y materion allweddol sy'n gysylltiedig â gweithio fel athro cyflenwi yn well. Yn unol â hynny, cynhaliwyd gwerthusiad o gryfderau a gwendidau canfyddedig y model economi gymysg sydd ar waith yn gyfredol.

13. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'r Tasglu yn ystyried rhinweddau nifer o fodelau darparu amgen, wrth archwilio'r dystiolaeth a oedd ar gael a safbwyntiau sefydliadau ac unigolion. Roedd hyn yn cynnwys amryw o fodelau sy'n cael eu mabwysiadu neu eu datblygu yn rhannau eraill o'r DU neu'n rhyngwladol, yr oedd rhai ohonynt yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf (gwasanaeth e-baru).

14. Rhoddwyd ystyriaeth i bob un o'r modelau hyn, gan gynnwys y manteision a'r anfanteision cysylltiedig ac, yn fwy penodol, sut y gellid gweithredu'r modelau hyn, neu elfennau ohonynt, yng nghyd-destun Cymru. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau hyn yn Atodiad B.

15. Er bod anfanteision yn gysylltiedig â'r system gyfredol, daeth hi'n amlwg nad oes un datrysiad syml sydd yn gweddu i bawb y gellid ei weithredu ar unwaith ar draws Cymru. Fodd bynnag, o ganlyniad i waith y Tasglu, ceir bellach ddealltwriaeth ddyfnach o'r cymhlethdodau'n gysylltiedig â'r problemau sydd yn dal angen eu datrys.

Argymhellion

16. Rydym eisoes wedi sefydlu bod y trefniadau ar gyfer darparu athrawon cyflenwi a'r rhesymau wrth wraidd penderfyniad ysgolion i benodi athrawon cyflenwi yng Nghymru yn hynod ddyrys, a bod nifer o systemau a modelau ar waith ar hyn o bryd.

17. Ni fu modd i'r Tasglu nodi un model cyffredin y gellir ei gyflawni ar unwaith ac sy'n bodloni anghenion system addysg sydd yn newid yn gyflym yng Nghymru.

18. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, credwn y dylai Llywodraeth Cymru:-

A1. Weithio gydag eraill i greu diffiniad mwy manwl gywir o'r term 'cyflenwi', gan sicrhau bod trefniadau i gasglu data yn y dyfodol yn ddibynadwy, a bod y data a gesglir yn gywir. Dylai hyn fod yn fodd i sicrhau bod y ddarpariaeth, yr effaith ar ddeilliannau dysgwyr a'r costau cyffredinol yn cael eu monitro'n effeithiol.

A2. Sefydlu trefniadau cynhwysfawr a chyson i gasglu data ar bob lefel, hy, yn yr ysgol, yn yr Awdurdod Lleol ac ar raddfa Cymru gyfan. Bydd hyn o gymorth i fonitro costau ac yn goleuo datblygiadau yn y dyfodol.

A3. Gweithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau cyflenwi masnachol i gynnal dadansoddiad o gostau llawn darparu athrawon cyflenwi.

A4. Ystyried cyflogi athrawon cyflenwi yng nghyd-destun trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol, waeth pa fodel a fabwysiedir i ddarparu athrawon cyflenwi, (gan gynnwys trefniadau dros dro); drwy gydweithio, dylai undebau, cyflogwyr a'r llywodraeth ddod i gytundeb ynghylch sut i drin athrawon cyflenwi yn deg, a chytuno hefyd ar delerau ac amodau priodol. Gellir gorfodi cytundeb drwy gyd-gynrychiolaeth, drwy delerau tendrau contractau caffael, drwy ganllawiau gan weinidogion ac, o bosib yn y dyfodol, drwy reoliadau.

A5. Codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr ynghylch y cyfrifoldebau a osodir arnynt o ran diogelu, diweddarau ei reolaeth effeithiol ar ganllawiau gweithlu ysgolion a rhoi diweddariad blynyddol ar y materion hyn i'r holl randdeiliaid.

A6. Ystyried rheoleiddio ansawdd asiantaethau cyflenwi masnachol drwy gyflwyno cyfres o safonau ansawdd gofynnol achrededig y dylai'r holl asiantaethau masnachol sy'n darparu athrawon cyflenwi i ysgolion a gynhelir eu bodloni. Bydd y dull hwn yn fodd i sicrhau bod yr holl asiantaethau sy'n rhoi athrawon ar waith mewn ysgolion yn gweithio hyd at yr un safonau gofynnol, ac yn dangos eu bod yn cydymffurfio â pholisiau allweddol, ee, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

A7. Ystyried sut, yn rhan o unrhyw fodel darparu amgen yn y dyfodol, y gallai rhai sy'n cyflenwi (llai nag un tymor), yn enwedig Athrawon Newydd Gymhwys, elwa ar drefniadau rheoli perfformiad mwy strwythuredig, ynghyd â'r cyfle i gyrchu gweithgareddau dysgu proffesiynol rheolaidd.

A8. Mewn unrhyw opsiynau a awgrymir ar gyfer darparu athrawon cyflenwi yn y dyfodol, cynnwys ystyriaeth o gwmpas model cydweithredol yn seiliedig ar ôl troed rhanbarthol. Dylai unrhyw fodel a argymhellir i'w weithredu gynnwys mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol, a dylid ei dreialu yn gyntaf.

A9. Cadw at egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn sicrhau bod unrhyw fodel darparu amgen a ddefnyddir yn y dyfodol yn gynaliadwy ac yn hyblyg yn y tymor hir. Dylai datblygiadau gefnogi'r diwygiadau a gynllunnir ar raddfa ehangach i sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael eu hystyried yn sector deallus yng ngweithlu ehangach yr ysgol.

A10. Gweithio tuag at amserlen 18 mis er mwyn cyflwyno cynigion i gefnogi modelau darparu amgen gan ystyried ar yr un pryd y trefniadau trosiannol a'r goblygiadau ar gyfer trefniant cyfredol Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Beth yw darpariaeth 'cyflenwi'?

19. Mae'n amlwg bod darparu athrawon cyflenwi yn eithriadol o gymhleth a bod dulliau o ddatrys y materion a nodwyd ymhell o fod yn syml. Cyfeiriwyd at hyn mewn adroddiadau blaenorol gan Estyn⁶, Swyddfa Archwilio Cymru⁷ a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ddarpariaeth, ansawdd a chost athrawon cyflenwi.

20. Nid oes diffiniad clir o'r term 'cyflenwi' a ddefnyddir yn gyffredinol, ac a ddeallir yn glir gan bawb sy'n ymwneud â'r sector addysg. Mae'r term yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ac fe'i defnyddir i ddisgrifio gwahanol amgylchiadau.

21. Mae cyflenwi wedi datblygu'n dderm i ddisgrifio'r **holl** ddarpariaeth cyflenwi pan fydd staff addysgu a staff cymorth yn absennol, a lle na fydd yr aelod arferol o staff yn gallu cyflawni dyletswyddau'r ystafell ddosbarth, waeth beth fo'r rheswm am hynny. Gall y cyfnod cyflenwi ar gyfer yr absenoldeb barhau am rai dyddiau tra bo'r athro arferol yn absennol, neu barhau am gyfnod hwy o absenoldeb, a gallai amryw o resymau fod wrth wraidd hyn.

22. Fodd bynnag, defnyddir y term 'cyflenwi' amlaf i ddisgrifio'r trefniadau a weithredir ar gyfer absenoldeb dyddiol/wythnosol pan fydd aelod o staff yn sâl neu ar gwrs dysgu proffesiynol. Bydd athrawon cyflenwi byrdymor yn wynebu rhwystrau na fydd eraill ar gontractau tymor penodol hwy yn eu wynebu, ee, cyflogau amrywiol a diffyg cyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae Estyn hefyd wedi nodi y gall athrawon cyflenwi byrdymor ei gwneud hi'n anodd sicrhau cysondeb ac ansawdd yr addysgu er mwyn sicrhau canlyniadau da i ddysgwyr.

A1. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag eraill i greu diffiniad mwy manwl gywir o'r term 'cyflenwi', gan sicrhau bod trefniadau i gasglu data yn y dyfodol yn ddibynadwy, a bod y data a gesglir yn gywir. Dylai hyn fod yn fodd i sicrhau bod y ddarpariaeth, yr effaith ar ddeilliannau dysgwyr a'r costau cyffredinol yn cael eu monitro'n effeithiol.

⁶ https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/effaith-absenoldeb-athrawon-medi-2013?_ga=1.3251632.1839007397.1455884581

⁷ https://www.wao.gov.uk/cy/system/files/publications/Covering_Teachers_Absence_Welsh_2013.pdf

Y tirlun presennol ar gyfer darpariaeth cyflenwi yng Nghymru

23. I raddau helaeth, model economi gymysg sy'n seiliedig ar y galw yw'r trefniant sydd ar waith ar hyn o bryd i ddarparu athrawon cyflenwi mewn ysgolion a gynhelir Ceir tua phum deg o asiantaethau cyflenwi masnachol sy'n gweithredu naill ai ar sail genedlaethol neu mewn ardal ddaearyddol benodol.

24. Ym mis Awst 2015, yn sgil Cyfarwyddiadau Newydd o dan Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC), dechreuwyd darparu gwasanaethau athrawon cyflenwi. Fel yr unig ddarparwydd, bydd yr asiantaeth yn cael ei monitro a'i hansawdd yn cael ei sicrhau hyd ddiwedd y contract. O dan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd)⁸, mae ysgolion ledled Cymru yn gyfrifol am benderfynu sut i drefnu, cyflogi, rheoli a rhoi eu gweithlu addysgu ar waith.

25. Gall ysgolion recriwtio a phenodi athrawon a byddant yn gyfrifol am drefnu i gyflenwi pan fydd athrawon yn absennol, wrth i anghenion godi. Bydd athrawon sy'n cael eu cyflogi fesul diwrnod neu'n fyrdymor (ee, un tymor neu lai) fel arfer yn cael eu cyflogi gan asiantaethau cyflenwi masnachol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod athrawon ar gontractau tymor canolig i dymor hwy yn cael eu cyflogi gan yr ysgol yn bennaf. Fodd bynnag, mae llawer o asiantaethau cyflenwi neu recriwtio masnachol yn gweithredu'n annibynnol ar drefniadau'r Fframwaith, ac maent felly y tu hwnt i gwmpas y gofynion monitro a sicrwydd ansawdd y mae'n rhaid i ddarparwyr fframwaith eu bodloni.

26. Mewn adroddiadau blaenorol, cyfeiriwyd at y ffaith bod cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth i reoli perfformiad yn brin, yn enwedig ymhlith rhai sydd yn gweithio ar sail tymor byr. Mae hyn hefyd yn broblem i rai sy'n newydd i'r proffesiwn. Ymddengys mai ad hoc iawn yw'r cyfleoedd i unigolion dderbyn neu elwa ar hyfforddiant ymwybyddiaeth ar bolisiâu a blaenoriaethau newydd/eginol. Yn ogystal â hyn, gall trefniadau cyflenwi byrdymor amharu ar ansawdd yr addysgu ac ar y dysgwyr.

27. Mae'r dull cyfredol a arweinir gan y farchnad yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i ysgolion o ran recriwtio. Fodd bynnag, dylai athrawon cyflenwi allu disgwyl tâl ac amodau sy'n cyd-fynd â'u statws athro cymwysedig. Dylent fod yn rhydd i barhau i fod yn athrawon cyflenwi os yw hynny'n gweddu i'w ffordd o fyw, neu ddefnyddio darpariaeth cyflenwi fel cam tuag at gyflogaeth barhaol; yn y naill achos a'r llall dylid bod modd iddynt gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol a datblygu gyrfa.

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2006/873/contents/made/welsh>

Casglu data

28. Rhoddodd y Tasglu ystyriaeth fanwl i'r data sydd ar gael ar ddemograffeg athrawon cyflenwi, a ddarparwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer cofrestr Cymru ar 28 Gorffennaf 2016, ac sydd bellach wedi'u cyhoeddi⁹.

29. Wrth ystyried yr wybodaeth hon, sylwyd bod nifer yr athrawon cofrestredig a nodwyd fel athrawon cyflenwi wedi gostwng o 4,794 ym mis Rhagfyr 2014 i 4,253 ym mis Gorffennaf 2016, er bod canran gyffredinol yr athrawon cyflenwi yng nghyfanswm y proffesiwn addysgu yn parhau i fod yn gymharol gyson.

30. Yn 2016, roedd 20.8% o athrawon cyflenwi o dan 29 oed a 31.7% dros 55 oed. O blith yr holl athrawon cyflenwi cofrestredig, roedd 44% (1,871) wedi'u hyfforddi yn y cyfnod cynradd; roedd 26.2% (1,115) wedi'u hyfforddi yn y cyfnod uwchradd, ac roedd 29.8% (1,267) arall wedi'u cofrestru ond nid oedd y cyfnod yr oeddent wedi'u hyfforddi ynddi yn hysbys.

31. Amlygai'r data fod 46.7% (1,987) o athrawon cyflenwi wedi nodi'r awdurdod lleol fel eu cyflogwr o gymharu â'r 50.4% (2,143) a nododd mai asiantaeth gyflenwi oedd eu cyflogwr, Cofnododd 2.9% (123) arall eu statws cyflogaeth fel 'arall'. Mae'r ffigurau hyn o ddiddordeb arbennig, oherwydd gwyddys nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol mwyach yn gweithredu cofrestr cyflenwi neu bwl cyflenwi, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau prin. Roedd tystiolaeth a roddwyd i'r Tasglu yn cadarnhau mai'r prif resymau dros nodi'r awdurdod lleol fel cyflogwr yw'r cyfyngiadau daearyddol ar ddarpariaeth cyflenwi ar fyr-rybudd mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig i gymryd lle athrawon sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhai sy'n dysgu disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

32. Gan hynny, mae nifer yr athrawon cyflenwi a gyflogir gan awdurdod lleol ac a delir yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (DCAAY) statudol, drwy gontractau tymor penodol, yn llawer uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae'r niferoedd yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, gyda'r crynhoad uchaf yn ardaloedd Awdurdod Lleol Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Sir y Fflint ac Abertawe.

33. Yn ardaloedd a rhanbarthau mwy trefol Cymru, lle ceir crynhoad uchel o asiantaethau cyflenwi masnachol a staff addysgu cyflenwi, er enghraifft, ym Mlaenau Gwent, Casnewydd a Thorfaen, mae nifer yr athrawon cyflenwi a delir drwy gyflogres awdurdod lleol yn gymharol isel. Mae'r ysgolion yn yr ardaloedd hyn yn tueddu i ddibynnu ar asiantaethau cyflenwi masnachol, neu athrawon y maent yn eu hadnabod, er mwyn bodloni'r rhan fwyaf o'u hanghenion staffio.

34. Roedd y ffaith bod bron i 50% o'r holl athrawon cyflenwi cofrestredig, fel y nodwyd yn flaenorol, wedi'u recriwtio gan ysgolion a'u talu drwy gontractau cyflogaeth yr awdurdod lleol yn unol â thelerau'r DCAAY yn annisgwyl. Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau'n gysylltiedig â'r pryderon a godwyd ynghylch cyflog teg i athrawon cyflenwi ac o ran y sawl a ddylai fod yn gyfrifol am

⁹ <http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ymchwil-ac-ystadegau/ystadegau-r-gweithlu-addysg>

drefniadau dysgu proffesiynol ar eu cyfer. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r ffaith nad oes unrhyw ddiffiniad cytunedig ar gyfer y gair 'cyflenwi' amharu ar y data a ddarparwyd.

35. Bu ysgrifenyddiaeth y Tasglu yn cynnal arolwg ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn casglu gwybodaeth am y math o gontractau cyflenwi sydd ar waith, hyd y contractau hynny a'r costau cysylltiedig. Fodd bynnag, o blith y ddau awdurdod ar hugain a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg dim ond chwech a ymatebodd i'r holiadur ac, o blith y rhain, dim ond pedwar a allai ddarparu manylion am gostau cyflenwi yn eu hardal. Roedd yr arolwg yn tynnu sylw at y ffaith bod data yn brin ar draws Cymru, ac yn pwysleisio'r cymhlethdodau'n gysylltiedig â'r dull o gofnodi gwybodaeth ar lefel ysgol ac awdurdod lleol.

Arolwg athrawon cyflenwi

36. Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth am y gweithlu cyflenwi yng Nghymru yn wael. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael drwy gasgliadau ac arolygon data amrywiol, fel Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)¹⁰, cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg a chasgliadau ad hoc a gynhelir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau allanol.

37. Yn nhymor y gwanwyn 2014, ar gais Llywodraeth Cymru, cynhaliodd yr EWC arolwg o'r holl athrawon cyflenwi a oedd wedi'u cofrestru ar ei gronfa ddata. Diben hyn oedd rhoi trosolwg o nifer yr athrawon sy'n cyflawni gwaith cyflenwi, hyd eu contractau, eu profiadau a'r prif resymau pam bod angen darpariaeth cyflenwi ar ysgolion¹¹.

38. Amlygai crynodeb o'r canfyddiadau fod 41% (2,162) o'r 14% (5,223) o'r holl athrawon cofrestredig sy'n gwneud rhyw fath o waith cyflenwi wedi ymateb i'r arolwg. Roedd 66% o ymatebwyr naill ai ar ddechrau eu gyrfa, ar ddiwedd eu gyrfa neu wedi ymddeol ac yn gweithio'n bennaf yn y cyfnod cynradd. Y prif reswm a roddwyd dros yr angen am ddarpariaeth cyflenwi oedd cymryd lle athrawon a oedd yn absennol a galluogi athrawon i fod yn bresennol mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol.

39. Yn rhan o arolwg ehangach Llywodraeth Cymru o'r Gweithlu Addysg, mae arolwg tebyg o athrawon cyflenwi cofrestredig wedi cael ei gynnal yn ddiweddar. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd yn adlewyrchu'r rhai a ofynnwyd yn 2014, ond roeddent hefyd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol ynghylch y cyfleoedd dysgu proffesiynol a chais am fwy o fanylion ynghylch mynychder a hyd y ddarpariaeth cyflenwi a ddefnyddiwyd. Cynhelir dadansoddiad o'r arolwg yn gynnar yn 2017.

40. Wrth ystyried unrhyw fodel darparu ar gyfer athrawon cyflenwi yn y dyfodol, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r data o'r arolwg yn sail ar gyfer datblygu proffil o ddemograffeg athrawon cyflenwi.

A2. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu trefniadau cynhwysfawr a chyson i gasglu data ar bob lefel, hy, yn yr ysgol, yn yr Awdurdod Lleol ac ar raddfa Cymru gyfan. Bydd hyn o gymorth i fonitro costau ac yn goleuo datblygiadau yn y dyfodol.

¹⁰

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannua/schoolcensus/?skip=1&lang=cy>

¹¹ <http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ymchwil-ac-ystadegau/ystadegau-r-gweithlu-addysg>

Cost darpariaeth cyflenwi

41. Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru o fis Medi 2013, nodwyd bod ysgolion yn gwario dros £54 miliwn ar ddarpariaeth cyflenwi. Dangosai data Cyngor y Gweithlu Addysg mai awdurdod lleol sy'n talu oddeutu 50% o'r gweithlu cyflenwi, mai darparydd Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, New Directions, sy'n cyflogi oddeutu 25% ohonynt, ac mai asiantaethau cyflenwi masnachol eraill sy'n cyflogi'r 25% sy'n weddill. Er bod ysgolion a rhai awdurdodau lleol yn cadw gwybodaeth am gostau cyflenwi, nid oes unrhyw ddata cynhwysfawr a chyson wedi'u casglu ar lefel ysgol, ar lefel leol nac ar lefel genedlaethol ers adroddiad SAC yn 2013.

42. Yn absenoldeb dadansoddiad ariannol llawn o'r gost o ddarparu athrawon cyflenwi drwy asiantaethau masnachol a'r gwariant cyffredinol o fewn y sector cyhoeddus; bu'n anodd iawn cyfrif cost gyffredinol y ddarpariaeth.

43. Ar hyn o bryd, ac heb allu sefydlu gwir gost darpariaeth cyflenwi ledled Cymru, mae'n anodd cyfrif cyfanswm y gost a'r arbedion y gellid eu sicrhau wrth weithredu model darparu amgen. Ar ben hynny, nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael yn rhwydd i esbonio na gwerthuso sut y gellid gosod y trefniadau ar gyfer rheoli costau cyflenwi drwy drefniadau yswiriant cyd-fuddiannol yr awdurdod lleol, na thrwy yswiriant preifat yr ysgol ei hun, yn erbyn y costau hynny, heb gyflawni darn cynhwysfawr o waith.

A3. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau cyflenwi masnachol i gynnal dadansoddiad llawn o gostau darparu athrawon cyflenwi.

Cyfraddau cyflog athrawon cyflenwi

44. Diddorol yw nodi bod oddeutu hanner yr holl athrawon cyflenwi a gyflogir ar gontractau tymor canolog i dymor hwy yn derbyn cyflog ar gyfradd sydd yn gymesur â'u cymwysterau, eu sgiliau a'u profiad, yn unol â DCAAY.

45. I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, mae'r cyfraddau cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau cyflenwi masnachol wedi'u harwain gan y farchnad ac yn dibynnu ar y galw am gyfnod neilltuol, y cyfrwng addysgu, neu'r lleoliad daearyddol.

46. Ar hyn o bryd, nid yw cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon wedi'u datganoli i Gymru. Pe baent yn cael eu datganoli yn y dyfodol, byddai'n bosibl i

Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o bennu cyflog ac amodau athrawon cyflenwi. Ymddengys fod y model cyflenwi canolog a weithredir yng Ngogledd Iwerddon yn cynnig strwythur cyflogau teg a thryloyw, a'r rheswm am hynny yw bod y gofrestr wedi'i chanoli. Mae'r model hefyd yn cael ei gefnogi'n llwyr gan yr holl awdurdodau lleol a'r athrawon drwy eu hundebau.

47. Wrth ystyried unrhyw fodel newydd ar gyfer darparu athrawon cyflenwi, mae angen ymdrin â thegwch o fewn y proffesiwn. Dylai athrawon cyflenwi allu disgwyl cyflog ac amodau sydd yn cyd-fynd â'u statws athro cymwysedig. Dylent fod yn rhydd i barhau i fod yn athrawon cyflenwi os yw hynny'n gweddu i'w ffordd o fyw, neu ddefnyddio darpariaeth cyflenwi fel cam tuag at gyflogaeth barhaol; yn y naill achos a'r llall dylid bod modd iddynt gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol a datblygu gyrfa.

A4. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflogi athrawon cyflenwi yng nghyd-destun trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol, waeth pa fodel a fabwysiedir i ddarparu athrawon cyflenwi, (gan gynnwys trefniadau dros dro); drwy gydweithio, dylai undebau, cyflogwyr a'r llywodraeth ddod i gytundeb ynghylch sut i drin athrawon cyflenwi yn deg, a chytuno hefyd ar delerau ac amodau priodol. Gellir gorfodi cytundeb drwy gyd-gynrychiolaeth, drwy delerau tendrau contractau caffael, drwy ganllawiau gan weinidogion ac, o bosib yn y dyfodol, drwy reoliadau.

Diogelu

48. Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles. Mae angen i bob sefydliad sy'n dod i gysylltiad â phlant sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd sy'n cadw'r plant hynny yn ddiogel. Wrth gasglu tystiolaeth, nododd y Tasglu amryw o bryderon yn gysylltiedig â diogelu, yn enwedig o ran atebolrwydd cyflogwyr. Codwyd y pryderon hyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn nhymor yr haf 2016, ac ymatebwyd yn brydlon i'r holl faterion.

49. Mae'n werth nodi bod athrawon cyflenwi ar gontractau tymor canolig neu dymor hir am gyfnod penodol fel arfer wedi'u cynnwys ym mholisi diogelu ysgolion. Fodd bynnag, yn aml ni fydd athrawon cyflenwi ar drefniadau dyddiol neu dymor byrrach yn elwa ar y dilyniant a'r gefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r math hwn o drefniant. Bydd ansicrwydd yn aml ynghylch swyddogaeth y 'cyflogwr', gyda'r ysgol a'r asiantaeth cyflenwi masnachol heb gymryd cyfrifoldeb llawn am faterion diogelu, galluogrwydd neu faterion disgyblu. Mae hyn yn destun pryder. Mae angen sicrhau eglurder llwyr ynghylch cyfrifoldebau cyflogwyr yn y maes hwn, fel bod materion yn cael eu datrys yn gyflym, bod y broses briodol yn cael ei dilyn, a bod y gweithlu cyflenwi yn derbyn yr un hawliau ag athro mewn swydd amser llawn.

50. Mewn ymateb i'r materion a amlygwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal rhaglen waith i godi ymwybyddiaeth ac atgyfnerthu trefniadau diogelu yn gysylltiedig â darparu a recriwtio athrawon cyflenwi.

- Cododd swyddogion faterion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg er mwyn sicrhau bod unrhyw fylchau a oedd yn bodoli ar draws yr holl gategoriâu cofrestru yn cael eu cau;
- Cafodd y canllawiau sefydlu statudol ar gyfer ANGau (2016)¹² eu hadolygu, ac atgyfnerthwyd rôl a chyfrifoldebau cyflogwyr mewn perthynas â diogelu;
- Ym mis Medi 2016, cynhaliwyd briffiadau ag asiantaethau cyflenwi masnachol i amlygu cyfrifoldebau statudol cyflogwyr mewn perthynas â diogelu a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);
- Lluniwyd taflenni ffeithiau i gyflogwyr i'w hatgoffa o'r trefniadau ar gyfer gwiriadau DBS a'r angen i wirio cymwysterau'r athro os oes ganddo Statws Athro Cymwysedig. Cafodd y taflenni ffeithiau eu cylchredeg ymhlith yr holl asiantaethau cyflogaeth a'r athrawon cyflenwi, eu cyhoeddi yng nghylchlythyr Dysg ac ar dudalennau'r athrawon cyflenwi ar wefan Dysgu Cymru¹³;

¹² <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/141002-induction-guidance-cy.pdf>

¹³ <http://learning.gov.wales/resources/collections/supply-teachers?lang=cy>

- Mae'r canllawiau ar reoli presenoldeb gweithlu'r ysgol yn effeithiol wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau mwy o eglurder ynghylch ymrwymadau diogelu'r rhai sy'n cyflogi athrawon cyflenwi;
- Cafodd holl adrannau AD awdurdodau lleol eu hatgoffa o gyfrifoldebau cyflogwr statudol yn gysylltiedig â diogelu;
- Yn ystod yr wythnos diogelu (14-18 Tachwedd) cysylltwyd â chyflogwyr yn uniongyrchol i bwysleisio eu cyfrifoldebau dros ddiogelu, ac i'w hatgoffa o'r canllawiau sydd ar gael ar Dysgu Cymru;
- Cafodd modiwlau hyfforddi ar-lein eu hyrwyddo ymhlith yr holl asiantaethau cyflenwi masnachol er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch pa mor bwysig yw hi i athrawon cyflenwi gwblhau'r hyfforddiant.

51. Croesewir y sylw prydlon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â'r pryderon a godwyd.

A5. Dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr ynghylch y cyfrifoldebau a osodir arnynt o ran diogelu, diweddarau ei rheolaeth effeithiol ar ganllawiau gweithlu ysgolion a rhoi diweddariad blynyddol ar y materion hyn i'r holl randdeiliaid.

Safonau ansawdd gofynnol achrededig ar gyfer asiantaethau cyflenwi

52. Ym mis Medi 2007, lanswyd Marc Safon ar ffurf menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth (CRCh). Y nod oedd codi safonau wrth ddarparu athrawon cyflenwi.

53. Yn 2011, am amrywiaeth o resymau, daeth cynllun y Marc Safon i ben. Teimlwyd y byddai cyflwyno Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer darparu athrawon cyflenwi, wedi'i gefnogi gan awdurdodau lleol, yn ddull addas amgen. Er mwyn gweithredu fel darparrydd, mae'n ofynnol i asiantaethau'r fframwaith fodloni safonau gweithredu gofynnol. Mae'r safonau hyn yn ymwneud yn benodol â diogelu, sicrwydd ansawdd a chefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol.

54. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu nad oes rhyw lawer o reoleiddio ar asiantaethau cyflenwi masnachol. Gall asiantaethau, fodd bynnag, ddewis cymryd rhan mewn archwiliad gwirfoddol a weithredir gan y CRCh. Gwyddom fod oddeutu 50% o athrawon cyflenwi cofrestredig yn cael eu cyflogi gan asiantaethau cyflenwi masnachol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw safonau ansawdd gofynnol statudol y mae'n rhaid i **bob** asiantaeth cyflenwi masnachol eu bodloni. Drwy bennu safonau gofynnol ar gyfer yr holl asiantaethau sy'n darparu athrawon i ysgolion a gynhelir yn fodd i sicrhau bod yr asiantaethau hynny yn dangos eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyflogaeth, yn bodloni meini prawf sicrwydd ansawdd penodol, ac yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol allweddol, ee, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan¹⁴.

55. Bydd pennu safonau ansawdd gofynnol ar gyfer yr holl asiantaethau cyflenwi sy'n dymuno rhoi athrawon cyflenwi ar waith mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ynghyd â'r symudiad tuag at system cyflog ac amodau datganoledig i Gymru yn y dyfodol, yn gam ymlaen tuag at system deg a thryloyw.

A6. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rheoleiddio ansawdd asiantaethau cyflenwi masnachol drwy gyflwyno cyfres o safonau ansawdd gofynnol achrededig y dylai'r holl asiantaethau masnachol sy'n darparu athrawon cyflenwi i ysgolion a gynhelir eu bodloni. Bydd y dull hwn yn fodd i sicrhau bod yr holl asiantaethau sy'n rhoi athrawon ar waith mewn ysgolion yn gweithio hyd at yr un safonau gofynnol, ac yn dangos eu bod yn cydymffurfio â pholisïau allweddol, ee, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

¹⁴ <http://gov.wales/topics/health/socialcare/safeguarding/?skip=1&lang=cy>

Athrawon Newydd Gymhwyso

56. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn awgrymu mai ANGau neu athrawon ar ddechrau eu gyrfa (y 0 - 5 mlynedd cyntaf) yw oddeutu 30% o athrawon sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi. Mae'n rhaid i bob ANG gwblhau cyfnod ymsefydlu o dri thymor ysgol neu 380 o sesiynau ysgol. Nodir yn y rheoliadau diwygiedig ar Ymsefydlu bellach fod yn rhaid i bob cyfnod o gyflogaeth o un sesiwn ysgol (diffinnir sesiwn ysgol fel un bore llawn neu un prynhawn llawn o gyflogaeth fel athro cymwysedig mewn ysgol) neu fwy gyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu ANG. Gall y rhai nad ydynt yn cael eu cyflogi'n llawn amser gronni sesiynau nes cyrraedd y nifer gofynnol (380).

57. Yn 2012, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg gyflawni darn penodol o waith i olrhain athrawon cyflenwi byrdymor sy'n ymsefydlu. Mewn ymateb i hyn, cyflwynodd Cyngor y Gweithlu addysg gyfleuster ar y we fyddai'n galluogi ANGau gofnodi eu bod wedi cwblhau sesiwn ysgol. Mae'n glir bod angen gwneud mwy i gefnogi ANGau sy'n gwneud gwaith cyflenwi byrdymor, yn enwedig yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Amlygai dystiolaeth a ddarparwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg ym mis Gorffennaf 2016 fod 342 o athrawon cofrestredig yn dilyn llwybr ymsefydlu a oedd yn cynnwys gwaith cyflenwi byrdymor yn unig. Heb y gefnogaeth gywir, ceir risg na fydd rhai ANGau yn gallu cwblhau ymsefydlu, neu y gallent ymadael â'r proffesiwn.

58. Daw'r rheoliadau arfarnu cyfredol i athrawon i rym cyn gynted ag y bydd athro cyflenwi wedi bod yn gweithio mewn ysgol am dymor neu fwy. Felly gall ANGau a gyflogir gan ysgolion ar gontractau tymor canolig i dymor hwy elwa ar drefniadau rheoli ac arfarnu perfformiad mewn modd tebyg iawn i aelodau staff parhaol. Ni chaiff y rhai ar gontractau byrrach eu cynnwys yn y rheoliadau arfarnu.

A7. Yn rhan o unrhyw fodel darparu amgen yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai rhai sy'n cyflenwi (am lai nag un tymor) yn enwedig Athrawon Newydd Gymhwyso, elwa ar drefniadau rheoli perfformiad mwy strwythuredig, ynghyd â'r cyfle i gyrchu gweithgareddau dysgu proffesiynol rheolaidd.

Dysgu a datblygu proffesiynol

59. Disgwylir i'r holl athrawon yng Nghymru gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain. Fodd bynnag, drwy gyflogaeth yn aml ar y ceir mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol, felly cyfyngir yn aml ar y cyfleoedd hynny pan fydd athrawon yn dewis gweithio'n hyblyg fel athrawon cyflenwi. Mae hyn yn arbennig o wir i rai sydd yn cyflenwi am gyfnod byr.

60. Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth Cymru y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)¹⁵ newydd, portffolio ar-lein sydd ar gael i rai sy'n cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Nid yw PDP yn orfodol (ac eithrio ar gyfer athrawon ysgol newydd gymhwyso sy'n cynnal eu proffil ymsefydlu), felly gellir ei ddefnyddio yn y modd sydd yn gweddu orau i'r unigolyn.

61. Mae tegwch a mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol o bryder neilltuol i ANGau nad ydynt yn gwneud gwaith cyflenwi byrdymor. Er bod athrawon yn gallu cyrchu eu PDP a Hwb¹⁶ (Y Storfa Genedlaethol ar gyfer Cynnwys Digidol), mae'n bwysig i ANGau sy'n cael eu cefnogi a'u datblygu mewn modd priodol, fel eu bod yn gallu dangos eu bod yn bodloni'r safonau ymsefydlu statudol¹⁷. Rydym yn ymwybodol bod consortia rhanbarthol yn cefnogi trefniadau ymsefydlu ANGau, gan gynnwys rhai sy'n gwneud gwaith cyflenwi, ond nad yw cyfleoedd dysgu proffesiynol bob amser ar gael neu'n hygyrch ar amser sy'n gweddu i'r athro cyflenwi, heb golli diwrnod o waith.

62. Mae Hwb yn galluogi dysgwyr ac addysgwyr i gyrchu adnoddau ar-lein yn unrhyw le, ar unrhyw bryd, ac o unrhyw ddyfais. Mae Hwb yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunyddiau cyhoeddus, dwyieithog sydd ar gael yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, er mwyn cael mynediad at offer a deunyddiau trwyddedig a gedwir ar Hwb, mae'n rhaid dilysu defnyddwyr drwy drefniadau rhannu data y cytunwyd arnynt â'r awdurdodau lleol ledled Cymru. Caiff cyfrifon defnyddwyr eu creu'n ddiogel a'u diweddarau'n awtomatig o ddata yn systemau gwybodaeth reoli ysgolion.

63. Felly, gan nad yw athrawon cyflenwi byrdymor wedi'u cofrestru ar systemau gwybodaeth reoli unrhyw ysgol, ni chaiff manylion mewngofnodi eu cynhyrchu ar eu cyfer, ac ni fydd ganddynt fynediad llawn at Hwb. Mae modiwlau e-ddysgu diogelu wedi cael eu darparu i'r cyhoedd drwy Hwb, a thynnwyd sylw asiantaethau cyflenwi at hyn yn ystod yr Wythnos Diogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd.

¹⁵ <http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/datblygiad-proffesiynol/pasbort-dysgu-proffesiynol>

¹⁶ <http://hwb.cymru.gov.uk/>

¹⁷ [http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld10121%20-%20the%20education%20\(induction%20arrangements%20for%20school%20teachers\)%20\(wales\)%20regulations%202015/sub-ld10121-e.pdf](http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld10121%20-%20the%20education%20(induction%20arrangements%20for%20school%20teachers)%20(wales)%20regulations%202015/sub-ld10121-e.pdf)

Model cydweithredol rhanbarthol ar gyfer cyflenwi

64. Er mai gwlad cymharol fach yw Cymru, ceir gwahaniaethau rhanbarthol a daearyddol clir yn anghenion ysgolion ac awdurdodau lleol wrth sicrhau athrawon cyflenwi. O ganlyniad i hyn, ni ystyriwyd bod model cyflenwi canoledig cenedlaethol yn briodol ar gyfer Cymru.

65. Fodd bynnag, mae'r tirlun yng Nghymru yn newid Mae'r diwygiadau a gynllunnir i'r sector addysg, y posibilrwydd o ddatganoli cyflog ac amodau athrawon i Lywodraeth Cymru, ynghyd â chynigion i atgyfnerthu trefniadau cydweithredol rhanbarthol ar gyfer ystod o wasanaethau (datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar waith rhanbarthol, a gyhoeddwyd ar 4 Hydref¹⁸) yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried model partneriaeth rhanbarthol gydweithredol. Gallai'r model hwn gynnwys awdurdodau lleol, Consortia Rhanbarthol, Sefydliadau Addysg Uwch ac ysgolion.

66. Gallai'r dull hwn roi cyfle i gynnal trefniant cydweithredol ar ôl troed daearyddol a allai ymdrin â rhai o'r anawsterau penodol a brofid mewn rhai ardaloedd wrth ganfod athrawon cyflenwi ar fyr-rybudd, ee, yn enwedig i gymryd lle athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a rhai sy'n addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

A8. Mewn unrhyw opsiynau a awgrymir ar gyfer darparu athrawon cyflenwi yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ystyriaeth o gwmpas model cydweithredol yn seiliedig ar ôl troed rhanbarthol. Dylai unrhyw fodel a argymhellir i'w weithredu gynnwys mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol, a dylid ei dreialu yn gyntaf.

A9. Dylai Llywodraeth Cymru gadw a egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn sicrhau bod unrhyw fodel darparu amgen a ddefnyddir yn y dyfodol yn gynaliadwy ac yn hyblyg yn y tymor hir. Dylai datblygiadau gefnogi'r diwygiadau a gynllunnir ar raddfa ehangach i sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael eu hystyried yn sector deallus o fewn gweithlu ehangach yr ysgol.

A10. Dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at amserlen 18 mis er mwyn cyflwyno cynigion i gefnogi modelau darparu amgen gan ystyried ar yr un pryd y trefniadau trosiannol a'r goblygiadau ar gyfer trefniant cyfredol Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

¹⁸ <http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3994&language=en&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=04/10/2016&endDt=04/10/2016#427466>

Atodiad A: Rhestr o rai a gyfrannodd i'r alwad am dystiolaeth

Tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig i'r Tasglu ar gyfer Modelau Cyflenwi:

Undebau Athrawon

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) *(ysgrifenedig a llafar)*

Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ALT) *(ysgrifenedig a llafar)*

Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) *(ysgrifenedig a llafar)*

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) *(ysgrifenedig a llafar)*

Undebau Penaethiaid

Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) *(Ysgrifenedig a llafar)*

Undeb Cenedlaethol y Penaethiaid (NAHT) *(ysgrifenedig a llafar)*

Undebau Staff Cymorth

Unsain *(llafar)*

Llais *(llafar)*

Consortia Addysg Cymru

Cydwasaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De *(ysgrifenedig a llafar)*

Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru *(ysgrifenedig a llafar)*

Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) *(ysgrifenedig)*

GwE *(llafar)*

Cyfarwyddwyr Addysg yr ALI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot *(llafar)*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf *(llafar)*

Cyfarwyddwyr AD Awdurdodau Lleol

Cyngor Sir Ceredigion *(llafar)*

Cyngor Dinas Casnewydd *(llafar)*

Cyngor Sir Penfro *(llafar)*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf *(llafar)*

Rhanddeiliaid

Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) *(llafar)*

Cyddfederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth *(llafar)*

Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) *(llafar)*

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) *(llafar)*

Canolfan Cydweithredol Cymru *(llafar)*

Sefydliadau Addysg Uwch

Prifysgol Metropolitan Caerdydd *(ysgrifenedig a llafar)*

Prifysgol De Cymru *(llafar)*

Llywodraeth Cymru

Cyngor y Gweithlu Addysg a Chymorth Cenedlaethol (*llafar*)

Tim y Fframwaith Polisi a Safonau (*llafar*)

Dysgu Proffesiynol (*llafar*)

Y Gangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion (*llafar*)

Cefnogi Cyflawniad a Diogelu (*llafar*)

Partïon Eraill â Buddiant

MPS Healthcare (Asiantaeth Nyrsio) (*llafar*)

New Directions Education (Arbenigwyr Recriwtio a Hyfforddi) (*ysgrifenedig a llafar*)

Partneriaeth Dysgu Plymouth (Cwmni Buddiannau Cymunedol Cydweithredol) (*ysgrifenedig a llafar*)

Tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig a anfonwyd at yr Ysgrifennydd, ac a ddarparwyd i'r Tasglu ar gyfer Modelau Cyflenwi.

Llywodraeth Cymru

Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Polisi Cyflog y GIG a Chontractau Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol) (*llafar*)

Caffael

Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol (GCC) (*llafar*)

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Caffael (*llafar*)

Llywodraethau

DfE (*llafar*)

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (*ysgrifenedig a llafar*)

Llywodraeth yr Alban (*ymchwil*)

Partïon Eraill â Buddiant

13 o Athrawon Cyflenwi neu Unigolion â Buddiant (*ysgrifenedig*)

CSAT (Asiantaeth Gydweithredol Athrawon Cyflenwi) (*ysgrifenedig*)

E-Teach Group (Datrysiaidau Recriwtio) (*ysgrifenedig*)

ITN Mark (Recriwtio Addysg) (*ysgrifenedig*)

Teacherin (platfform e-baru) (*ysgrifenedig a llafar*)

The Supply Register Limited (Banc/Platfform e-baru) (*ysgrifenedig*)

Wydelta (platfform e-baru) (*ysgrifenedig*)

Atodiad B: Modelau darparu amgen a ystyriwyd

Cafodd y modelau darparu a ystyriwyd eu hargymell gan unigolion ac/neu sefydliadau rhanddeiliaid wrth roi tystiolaeth. Ymddengys na fyddai'r un model yn cynnig datrysiad cyffredinol, ond ceir nifer o egwyddorion ac elfennau yn gysylltiedig â modelau unigol a allai weithio mewn cyd-destun Cymreig pe bai rhanddeiliaid yn eu cefnogi.

Nodir y casgliadau yn yr adran a ganlyn.

Y model canoledig sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon

O fiis Medi 2006, dim ond athrawon wrth gefn sydd ar Gofrestr Athrawon Wrth Gefn Gogledd Iwerddon (NISTR) sy'n cael gweithio drwy drefniant dros dro mewn ysgolion. Cefnogir y NISTR gan Adran Addysg Gogledd Iwerddon (DENI), ac fe'i hategir gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon. Model canoledig iawn yw NISTR sy'n cynnwys system archebu athrawon drwy rwydwaith ar-lein, sef cofrestr o athrawon wrth gefn sydd yn weithredol ar draws mwyafrif yr ysgolion yng Ngogledd Iwerddon. Rheolir y gofrestr gan awdurdodau addysg lleol, gyda bwrdd awdurdod lleol Belfast yn sefydliad arweiniol.

Y manteision amlwg yn gysylltiedig â'r math hwn o fodel w bod yr holl athrawon dros dro wrth gefn sydd wedi'u cofrestru ar NISTR yn gallu elwa ar gyfres statudol o delerau ac amodau gwasanaeth cenedlaethol, a'r buddion sy'n gysylltiedig â hynny. O'n safbwynt ni, nid yw cyflog ac amodau wedi'u datganoli eto, mae'r dull o recriwtio athrawon cyflenwi yn amrywio, a gwneir defnydd sylweddol o asiantaethau cyflenwi masnachol i fodloni anghenion ysgolion. Yn y cyd-destun presennol, felly, mae'n anodd gweld sut y gallai model canoledig tebyg weithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol a geir ar hyn o bryd yng Nghymru.

Model Cyflenwi'r Farchnad Agored sydd ar waith yn Lloegr

Gwneir defnydd amlwg o asiantaethau cyflenwi masnachol yn Lloegr, a deallir nad oes gan yr Adran Addysg yn y wlad honno unrhyw gynlluniau i reoleiddio nag ymyrryd yn y trefniadau hyn.

Yn sgil manteisio ar statws academi ac ysgol rydd yn Lloegr, caiff ysgolion ddewis cyflogi a phenodi staff a gweithredu eu trefniadau cyflog eu hunain (y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod lleol) gan olygu i bod hi'n bosibl talu athrawon, gan gynnwys athrawon cyflenwi, ar gyfraddau y tu hwnt i drefniadau'r DCAAY. Mewn ysgolion a gynhelir, mae ymagwedd asiantaeth yn seiliedig ar y farchnad ar waith sydd yn debyg i'r hyn a geir yng Nghymru. Mae hynny'n golygu y gall rhai gweithwyr mewn asiantaethau cyflenwi masnachol ofyn am gyfraddau tâl uwch yn dibynnu ar ffactorau rhanbarthol,

ac os oes prinder athrawon sy'n arbenigo mewn pwnc neu gyfnod addysgu neilltuol. Oherwydd ei arwahanrwydd, ei anfantesion a'r pwysau cysylltiedig, mae'r model sydd ar waith yn Lloegr yn debyg i fodolau a welir yng Nghymru.

Model Partneriaeth Dysgu Plymouth. Cwmni Buddiannau Cymunedol Cydweithredol

Cytundeb partneriaeth dielw sy'n cynnwys llawer o gydweithredu yw model PDP Plymouth. Mae'n cynnwys cydweithio agos rhwng y Cwmni Buddiannau Cymunedol, Awdurdod Lleol Plymouth, dau ddarparwydd prifysgol, rhwydwaith o ysgolion (ysgolion cynradd yn bennaf, ond gan gynnwys rhai ysgolion uwchradd) a'r Ysgol Addysgu leol. Fe'i cefnogir gan e-blatfform annibynnol i reoli archebion, ac nid oes rhyw lawer o orbenion i'w talu er mwyn gweithredu a rheoli'r system.

Bydd athrawon cyflenwi sydd wedi'u cofrestru gyda PDP yn cael cymorth i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol, a ddarperir gan y prifysgolion a'r Ysgol Addysgu. Maent yn derbyn cyfraddau cyflog tryloyw, ynghyd â chyfraniadau pensiwn drwy gynllun NEST y Llywodraeth.

Bydd athrawon cyflenwi yn dewis cofrestru gyda'r PDP oherwydd y gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael yn barhaus, a chan fod llawer o athrawon yn mynd rhagddynt wedyn i gael eu lleoli mewn ysgolion yn Plymouth a'r cyffiniau ar drefniant parhaol. Gan amlaf, gall y PDP fodloni'r galw am athrawon cyflenwi ymhlith yr ysgolion sy'n cymryd rhan ynddi.

Mae'n glir bod mwy o fanteision nag anfantesion yn gysylltiedig â math hwn o fodel cydweithredol yng nghyd-destun partneriaeth Plymouth. Gellid ystyried rhai o egwyddorion y model er mwyn creu model cydweithredol amgen i Gymru. Fodd bynnag, ceir cwestiynau ynglŷn â'r gallu i ddarparu ar raddfa fwy.

Caiff unrhyw elw a gynhyrchir gan y CBC ei ail-fuddsoddi i gefnogi mentrau cymdeithasol a mentrau gwella addysg ehangach.

Y model seiliedig ar gontract sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd

Deallir bod deddfwriaeth yr Alban yn mynnu mai'r awdurdod lleol sy'n cyflogi athrawon cyflenwi. Telir athrawon cyflenwi sy'n gweithio am 2 ddiwrnod neu lai ar gyfradd pwynt 1 (pwynt 0 os nad ydynt wedi'u cofrestru'n llawn) ar y Brif Raddfa Gyflog a gafodd ei negodi â Phwyllgor Negodi Athrawon yr Alban (SNCT) ar gyfer pob cyfnod o waith cyflenwi. Cyfrifir y cyflog ar sail y gyfradd briodol fesul awr.

Os bydd athro cyflenwi byrdymor wedi bod yn gweithio am gyfnod cyflenwi unigol parhaus o ddau ddiwrnod, â'r cyfnod hwnnw wedyn yn cael ei ymestyn, y gyfradd gyflog ar gyfer yr estyniad hwnnw fydd y pwynt cynyddraddol ar y Brif Raddfa Gyflog y mae'r athro yn gymwys ar ei chyfer.

Caiff pob cytundeb ar wahân am 2 ddiwrnod neu lai ei drin fel contract ar wahân. Os bydd y gwaith cyflenwi yn hwy na 2 ddiwrnod, caiff yr athro cyflenwi contract dros dro am gyfnod penodol, ac o ddiwrnod 3 ymlaen, fe'i telir yn unol â'r telerau yn Llawlyfr yr SNCT. Mae'r ffaith bod cyflog ac amodau wedi'u datganoli i'r Alban yn galluogi Llywodraeth yr Alban i negodi ar draws pob lefel a phob agwedd ar gyflogau ac amodau athrawon, gan gynnwys gwaith cyflenwi.

Prin yw'r dystiolaeth bod awdurdodau lleol yn cydweithio i gydrannu adnoddau. Deellir hefyd nad yw'r trefniant seiliedig ar contract bob amser yn cynnig trefniadau cyflenwi digonol, lle ceir cyfyngiadau daearyddol penodol neu brinder neilltuol. Fodd bynnag, o ran asesu cost darpariaeth cyflenwi, caiff y costau eu rhagweld a'u monitro gan fod y cyfraddau cyflog yn hysbys o'r cychwyn cyntaf.

Mantais fwyaf model yr Alban yw'r strwythur cyflogau clir, a'r gallu ar lefel yr awdurdod lleol i gynllunio a monitro'r trefniadau ar gyfer absenoldeb a rheoli pwysau ar y gweithlu. O ran ANGau, mae'r addewid o flwyddyn ymsefydlu yn sicrhau bod athrawon yn bodloni'r safonau ymsefydlu gan oresgyn y problemau'n gysylltiedig â darparu cefnogaeth ddigonol i ANGau. Ymddengys mai'r anfantais yw'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag ymdrin ag amryw o contractau ar gyfer cyfnodau o 2 ddiwrnod neu lai, a'r ansicrwydd i athrawon cyflenwi sydd yn addysgu'n barhaus ar sail ddyddiol neu fyrdymor.

Y modelau economi gymysg rhydd sydd ar waith yn Awstralia a Seland Newydd

Mae'r modelau ar gyfer athrawon cyflenwi neu athrawon wrth gefn sydd ar waith yn Awstralia a Seland Newydd yn gweithio mewn modd tebyg i fodel darparu economi gymysg debyg sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr.

Nid oes unrhyw fodelau penodol ar waith yn y gwledydd hyn a fyddai'n cynnig ffordd uniongyrchol o ddatrys y problemau sy'n effeithio ar ddarpariaeth athrawon cyflenwi yng Nghymru. Yn Awstralia, y taleithiau unigol sy'n gyfrifol am addysg yn eu hardal, ac ymddengys fod y trefniadau sydd ar waith i ddarparu athrawon cyflenwi mewn ysgolion yn amrywio'n helaeth, yn dibynnu ar y lleoliad daearyddol ac ar ba mor bell i ffwrdd y mae'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf mewn rhai ardaloedd wedi datblygu'n dda, yn enwedig er mwy paru athrawon cyflenwi â swyddi dros dro, gydag amryw o fentrau masnachol yn cynnig yr e-blatfformau diweddaraf i ateb y galw mewn ysgolion a chysylltu athrawon cyflenwi ag ysgolion unigol, grwpiau o ysgolion neu ysgolion ar rwydwaith.

Gwasanaethau paru e-blatfform a systemau technolegol sy'n hawdd eu deall a'u defnyddio.

Yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd cynnydd yn y dechnoleg sydd ar gael i gefnogi gwasanaethau ac e-blatfformau rhyngweithiol ac annibynnol. Mae systemau cyfatebol fel hyn i gefnogi asiantaethau cyflenwi naill ai eisoes ar gael, neu'n cael eu datblygu yn y DU. Drwy ap, mae'r dechnoleg e-baru yn ei gwneud hi'n bosibl i gysylltu'r athrawon cyflenwi sydd ar gael yn uniongyrchol ag ysgolion a chanddynt swyddi gwag, heb ryw lawer o waith i reoli'r system.

Mae systemau seiliedig ar ap fel hyn yn galluogi athrawon i gofrestru am ddim, ond bydd ysgolion yn talu i ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r ffi sy'n daladwy yn ddibynnol ar nifer y disgyblion yn yr ysgol.

Manteision y math hwn o dechnoleg yw bod athrawon ac ysgolion a chanddynt swyddi cyflenwi gwag yn cael eu paru bron un unwaith; yr ysgolion yw'r cyflogwr o'r diwrnod cyntaf, felly telir am y gwaith cyflenwi yn unol â'r DCAAY, a bydd athrawon cyflenwi unigol yn derbyn hysbysiadau ar unwaith ac yn gallu lawrlwytho manylion y gwaith cyflenwi yn uniongyrchol, gan gynnwys manylion yr ysgol a chynlluniau gwers.

Deallir hefyd mai'r darparwydd yr e-wasanaeth hefyd fydd yn cynnal trefnu'r camau diogelu, y cyfweliadau a'r gwiriadau DBS a'r gwiriadau cyflogaeth cychwynnol. Nid yw'r gwasanaeth yn gweithredu fel cyflogwr uniongyrchol,

felly bydd yr ysgolion yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol fel cyflogwr, er mwyn bodloni eu hymrwymadau diogelu.

Manteision eraill y math hwn o wasanaeth paru yw'r gallu i rai sy'n cofrestru gyrchu modiwlau dysgu proffesiynol ar-lein drwy'r platfform, ac os bydd unrhyw benodiad yn datblygu'n benodiad parhaol, gellir rhoi heibio unrhyw ffi 'canfod'.

Yn rhan o unrhyw fodel darparu yn y dyfodol, bydd angen ystyried y math hwn o dechnoleg.

Atodiad C: Tasglu Gweinidogol ar gyfer Modelau Cyflenwi – cylch gorchwyl

1. Y Cefndir

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai Tasglu ar gyfer Modelau Cyflenwi yn cael ei sefydlu i ystyried opsiynau ar gyfer darparu athrawon cyflenwi yn y dyfodol yng Nghymru. Gwaith y Tasglu yw'r ymrwymiad a nodwyd yn y *Model Darparu Amgen i Ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gweithredu* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016.

2. Dyletswydd a Chyfrifoldebau

Bydd y Tasglu yn defnyddio tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol yn ychwanegol at ganfyddiadau adroddiadau'n ymwneud yn benodol â Chymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y maes hwn, sef:

- *Effaith Absenoldeb Athrawon*, Estyn, Medi 2013;
- *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Swyddfa Archwilio Cymru, Medi 2013;
- *Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Mai 2014; ac
- *Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi*, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2015.

Gan mai ymrwymiad a nodir yn Modelau darparu amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus: Modelau darparu amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus : Cynllun Gweithredu yw'r Tasglu, dylai felly ystyried yr egwyddorion sy'n sail i'r ddogfen honno, a bydd egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn sail i waith y Tasglu hwn.

Swyddogaeth benodol y Tasglu yw:

- Adolygu'r modelau cyflenwi sydd ar waith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i ddarparu rhestr o'r opsiynau eraill (ynghyd â'r costau ariannol sy'n gysylltiedig) ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran y modelau y gellid eu defnyddio yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd angen cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o fanteision ac anfanteision pob opsiwn, gan gydbwysu'r manteision, y costau, a'r risgiau perthnasol.

Dylai'r opsiynau amlinellu system sy'n defnyddio dull gweithredu cyson ar gyfer darparu gwasanaeth cyflenwi ledled Cymru, ac sy'n sicrhau deilliannau positif i'r dysgwyr, gan ei ddiogelu ar yr un pryd. Dylai'r opsiynau sy'n cael eu hargymhell a'u cyflwyno:

- Cydnabod a chefnogi adnodd addysgu hyblyg
- Sicrhau system gyflogau sy'n deg, yn gyson ac yn dryloyw ar gyfer athrawon cyflenwi ledled Cymru
- Darparu dull gweithredu strwythuredig a ffurfiol sy'n sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael manteisio ar gyfleoedd datblygu proffesiynol a phrosesau rheoli perfformiad, gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu a chwyno

- Sicrhau bod ysgolion yn gallu dod o hyd i athrawon o ansawdd uchel sy'n gallu cynnig cysondeb o ran darparu dysgu o safon
- Cefnogi athrawon cyflenwi sydd newydd gymhwyso ac sy'n ymgymryd â swydd tymor byr i allu dangos yn llawn eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon
- Darparu gwybodaeth reoli gywir o ran costau, lefelau absenoldeb, a phatrymau cyflogaeth dros dro
- Cynnig gwerth am arian
- Lleihau'r baich gweinyddol a biwrocraidaidd ar benaethiaid
- Ystyried yr egwyddorion sy'n sail i *Modelau darparu amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus : Cynllun Gweithredu*
- Bodloni'r gofynion a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

3. Llywodraethu

Sandra Jones fydd yn cadeirio'r Tasglu, a hi fydd y pwynt cyswllt cyntaf. Darperir cymorth ysgrifenyddol i'r Gweithlu gan Uned Strategaeth y Gweithlu (Ysgolion), Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru.

4. Cynnal asesiadau / cyfarfodydd

Bydd y Tasglu'n gweithredu rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2016, a bydd yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis i drafod sut mae'r gwaith yn dod yn ei flaen.

5. Aelodaeth y Tasglu

Dyma aelodau'r Tasglu:

Y Cadeirydd

Sandra Jones

Aelodau craidd

Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, Cyngor Undebau Llafur Cymru

Eithne Hughes, Pennaeth, Ysgol Bryn Elian

Donna Merrick, Adnoddau Dynol ac Ymgynghorydd Recriwtio

Bydd disgwyl i aelodau'r Tasglu:

- Gynnig eu sylwadau a'u harbenigedd ar faterion sy'n ymwneud â phob agwedd ar gyflenwi; a
- Chyfrannu at drafodaethau ar fodelau eraill ar gyfer darparu gwasanaeth cyflenwi, gan gynnig opsiynau priodol

Bydd disgwyl i'r Tasglu gysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn goleuo opsiynau darparu amgen. Bydd angen cynnwys o leiaf y canlynol ymhlith y rhanddeiliaid hynny:

- Undebau Addysg
- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Awdurdod Lleol
- Cyfarwyddwyr AD
- Cyfarwyddwyr Addysg
- Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Rhanbarthol

- Asiantaethau Cyflenwi/Confederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Estyn
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
- Llywodraethwyr Cymru
- Sefydliadau Addysg Uwch sy'n darparu hyfforddiant i athrawon
- Y Comisiwn Staff

Hefyd gofynnir i'r Tasglu geisio cyngor cyfreithiol arbenigol, er mwyn sicrhau bod pob model yn cydymffurfio â chyfraith bresennol y DU a'r UE, a'i fod o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol. Bydd Uned Strategaeth y Gweithlu yn darparu cymorth ar gyfer cael gafael ar y cyngor cyfreithiol y mae ei angen.

Dylai'r aelodau roi sylw i'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (**Egwyddorion Nolan**):

Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu elwa mewn ffordd arall.

Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu unrhyw ddyled arall i sefydliadau neu unigolion allanol a allai geisio dylanwadu ar y ffordd y maent yn perfformio'u dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.

Bod yn Agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

Gonestrwydd

Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiimpl.

6. Dod ag aelodaeth o'r Tasglu i ben

Caiff unrhyw ochr ddod ag aelodaeth o'r Tasglu i ben, o dan yr amgylchiadau priodol. Os bydd aelod yn torri un o delerau'r Cyfansoddiad, gan gynnwys y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, bydd hynny'n cael ei ystyried yn amgylchiad priodol ar gyfer dod ag aelodaeth i ben.